

**2017 Rhif 179 (Cy. 52)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r  
A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau,  
Gwynedd) (Cyfyngiadau  
Cyflymder Dros Dro a Dim  
Goddiweddyd) 2017**

*Gwnaed*

*17 Chwefror 2017*

*Yn dod i rym*

*22 Chwefror 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A470) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (“y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

**2.—(1)** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- 
- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (*“the lengths of the trunk roads”*) yw:

i. y darn o gefnffordd yr A470 yn Nolgellau yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 550 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A493 hyd at bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Phont yr Arran; a

ii. y darn o gefnffordd yr A494 yn Nolgellau yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A470 hyd at bwynt 400 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno;

ystyr “lluoedd arbennig” (*“special forces”*) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddud unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

#### **Atal Dros Dro**

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

#### **Cymhwyso**

7. —(1) Nid fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

#### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Chwefror 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru